



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Ysgol Bro Eirwg

**Heol Ridgeway
Llanrhymni
CF3 4AB**

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

Ynglŷn ag Ysgol Bro Eirwg

Enw'r darparwr	Ysgol Bro Eirwg
Awdurdod lleol	Cyngor Caerdydd
Iaith y darparwr	Cymraeg
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	*
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	391
Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol	295
Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol)	52
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%)	28.9%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%)	2.7%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	24.4%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	0.0%
Dyddiad penodi'r pennaeth	
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	
Dyddiad dechrau'r arolygiad	03/06/2024

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:

[Fy Ysgol Leol \(gov.wales\)](http://gov.wales)

- a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

Trosolwg

Mae Ysgol Gymraeg Bro Eirwg yn rhan o Ffederasiwn y Ddraig a gafodd ei ffurfio ym Medi 2019. Ar y cyd ag Ysgol Gymraeg Pen y Pîl, maent yn creu cymuned ddysgu lwyddiannus sy'n dathlu Cymreictod, gofal a pharch yn dda, ac yn cynnig profiadau gwerthfawr i ddisgyblion. Mae balchder disgyblion o'u hysgol, eu hardal leol a Chymru i'w deimlo'n amlwg o fewn yr amgylchedd dysgu.

Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth effeithiol y penaethiaid mewn gofal, yn cydweithio'n dda ac yn darparu arweiniad clir sy'n cyfrannu'n effeithiol at gysondeb y ddarpariaeth ac at addysg gyflawn y disgyblion. Mae'r berthynas waith agos rhwng ysgolion clwstwr Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern yn cyfrannu ymhellach at yr ymdeimlad o gydweithio a chydrannu effeithiol sy'n elfen gref o'r arweiniad hwn. Mae staff yn ymrwmo i ddarparu ansawdd uchel o ofal a lles i ddisgyblion ar draws yr ysgol, mewn awyrgylch gefnogol. Mae hyn yn dylanwadu'n llwyddiannus ar ymddygiad ac agweddau'r disgyblion at ei gilydd ac oedolion.

Mae trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella'r ffederasiwn yn effeithiol. Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir yn fedrus i ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach. Er enghraifft, mae arweinwyr yn gwerthuso'r effaith mae datblygu amgylchedd dysgu pwrpasol ac ysgogol wedi ei chael ar chwilfrydedd, mwynhad a hyder y disgyblion ieuengaf yn eu dysgu. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd bwriadus i'r disgyblion ddatblygu ymdeimlad cryf o berthyn i'r gymuned ac i Gymru. Maent yn rhoi pwyslais teilwng ar ddarparu ystod o brofiadau gwerthfawr a diddorol sy'n adeiladu'n effeithiol ar ddatblygiad disgyblion ac yn ymestyn eu gorwelion yn dda. Mae athrawon yn cynllunio'n fwriadus er mwyn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau diddorol o fewn a thu hwnt i'r dosbarth.

Mae bron bob disgybl yn dechrau'r ysgol gyda medrau siarad Gymraeg sydd islaw'r hyn a ddisgwylir. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau cyfathrebu, mathemateg a digidol, ac erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, maent yn datblygu i siarad yn hyderus yn Gymraeg a Saesneg. Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol; er hyn, nid ydynt bob tro'n deall ystyr y testun wrth ddarllen yn Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos parch aeddfed at gyflwyniad eu gwaith ac mae eu gofal a'u llawysgrifen yn nodwedd gref. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi medrau dysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn hynod effeithiol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da dros gyfnod.

Mae cynnal perthynas ragweithiol â'r holl deuluoedd yn flaenoriaeth i'r pennaeth a'r staff, a chaiff hyn ei adlewyrchu wrth ymateb i achosion achlysurol yn gyflym. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at gryfhau'r berthynas waith dda sydd rhwng yr ysgol a'r rhieni.

Argymhellion

A1 Datblygu darpariaeth darllen Cymraeg er mwyn cefnogi disgyblion i wella eu dealltwriaeth o destunau ar draws y meysydd dysgu

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â datblygu amgylchedd ddysgu gyfoethog ac ysgogol sy'n hybu chwilfrydedd a brwdfrydedd y disgyblion ieuengaf yn eu dysgu, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

Prif ganfyddiadau

Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau cyfathrebu, rhif a chymdeithasol priodol. Er hyn, mae medrau cyfathrebu Cymraeg bron bob disgybl wrth ddechrau'r ysgol islaw'r hyn a ddisgwylir. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn mewn llawer o'u medrau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n ofalus ar gyfraniadau ei gilydd ac ar oedolion. Mae'r disgyblion ieuengaf yn mwynhau ailadrodd storïau cyfarwydd sy'n cyfoethogi eu geirfa a chyflwyno patrymau iaith sy'n berthnasol i themâu'r dosbarth. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn sgwrsio am eu gweithgareddau a'u profiadau yn gynyddol hyderus. Erbyn Blwyddyn 4, mae llawer o ddisgyblion yn egluro eu syniadau'n llwyddiannus, gyda'r mwyafrif yn datblygu eu gallu i drawsieithu yn gwbl naturiol. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau llafaredd yn hyderus. Maent yn dangos parodrwydd i sgwrsio am eu gweithgareddau a'u profiadau dysgu yn aeddfed gan ddefnyddio iaith addas, er enghraifft wrth drafod bywyd a gwaith Terrence Mathews. Fodd bynnag, mae tueddiad i lawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol droi i'r Saesneg wrth gyfathrebu mewn sefyllfaoedd anffurfiol.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae adnabyddiaeth y disgyblion ieuengaf o seiniau cychwynnol yn datblygu'n gadarn trwy weithgareddau ysgogol ac ymarferol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn datblygu eu medrau i gyfuno seiniau er mwyn adeiladu geiriau anghyfarwydd. Er hyn, mae disgyblion yn darllen yn fecanyddol gyda thueddiad i rithro ac, o ganlyniad, nid ydynt bob amser yn deall cynnwys y testun. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen testunau Saesneg yn hyderus gan ddefnyddio goslef briodol, yn talu sylw i atalnodi ac yn trafod y cynnwys yn ystyrion. Fodd bynnag, wrth i ddisgyblion ddarllen yn Gymraeg, nid ydynt bob tro'n deall ystyr

y testun yn ddigon effeithiol. Mae hyn yn ei dro yn cyfyngu ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o wahanol gyd-destunau dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn mwynhau creu marciau, gydag ychydig yn dechrau ffurfio llythrennau ac ysgrifennu geiriau syml yn synhwyrol, er enghraifft wrth fapio stori 'Beth Nesaf?'. Wrth i'w medrau datblygu, maent yn sillafu geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn gynyddol gywir. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn atalnodi'n bwrpasol ac yn defnyddio berfau cryno yn gyson gywir wrth ysgrifennu'n annibynnol, er enghraifft wrth lunio dyddiadur ffermwr. Ym Mlynnyddoedd 3 a 4, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n bwrpasol at nifer o ddibenion, er enghraifft wrth ddefnyddio cymariaethau'n gelfydd i lunio portread o'r dywysoges Gwenllian. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu darnau o waith estynedig yn effeithiol. Maent yn cyflwyno gwybodaeth ffeithiol a thestunau creadigol mewn ystod eang o gyd-destunau dysgu, sy'n cynnwys cyflwyno taflen wybodaeth am faterion amgylcheddol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu llawysgrifen sy'n ddarllenadwy, maent yn dangos gofal a pharch ac yn cyflwyno eu gwaith yn daclus a threfnus. Mae hyn yn gryfder ar draws yr ysgol.

Mae medrau mathemateg llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn ar draws yr ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu dealltwriaeth o drefn rhifau gan eu defnyddio'n hyderus hyd at o leiaf 20. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae llawer yn datblygu ystod o fedrau mathemateg yn llwyddiannus. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 2, maent yn trefnu eilrifau ac odrifau hyd at 1000 yn gywir gan ddefnyddio rhifau o lyfr raffl. Erbyn Blwyddyn 4, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adeiladu ar eu medrau yn briodol, er enghraifft wrth gyfrifo perimedr lleoedd go iawn, gan ddefnyddio metrau yn llwyddiannus. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso'u gwaith rhif ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus, gan adalw dysgu blaenorol yn gelfydd. Er enghraifft, maent yn defnyddio eu gwybodaeth am ganrannau, elw a cholled i ddatrys problemau wrth esgus prynu a gwerthu pêl-droedwyr enwog yn llwyddiannus. Mae medrau rhifedd llawer o'r disgyblion hynaf yn datblygu'n bwrpasol.

O oedran cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau digidol yn gyson mewn ystod o gyd-destunau dychmygus i gefnogi eu dysgu ehangach. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio llechen ddigidol yn hyderus i gofnodi eu dysgu, er enghraifft wrth ddefnyddio rhaglen animeiddio i adrodd stori a datblygu medrau rheoli syml gyda'r crwb. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn ymestyn eu medrau wrth greu ffilm o sgript yn amlinellu eu taith i Fae Caerdydd, er enghraifft. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blynnyddoedd 3 i 6 yn defnyddio eu medrau digidol yn hyderus i gefnogi eu medrau ymchwil annibynnol gan olygu, ailddrafftio a chyflwyno eu gwaith thema hanes boddi cwm Tryweryn. Maent yn dechrau datblygu eu medrau codio yn briodol i reoli teclynnau digidol i oleuo. Mae disgyblion yn cadarnhau eu dulliau o gadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngwyd yn hyderus.

Mae bron bob un o'r disgyblion ieuengaf yn ymroi'n frwdfrydig i weithgareddau corfforol mân a mawr mewn ardaloedd dysgu a chwarae cyfoethog. Maent yn datblygu eu medrau corfforol gyda hyder cynyddol, er enghraifft wrth gario pibellau cardfwrdd i fyny ac i lawr bryncyn a symud o gwmpas yr iard ar eu cwrcwd. Mae'r disgyblion hynaf yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn sesiynau addysg gorfforol, er enghraifft wrth daflu pêl tennis, a gwella eu perfformiad wrth ei gofnodi'n ddigidol, a phan ddaw'r cyfle mewn cystadlaethau lleol.

Mae bron bob disgybl yn datblygu medrau creadigol cadarn trwy weithgareddau dylunio a chreu cyson. Mae disgyblion yn dangos balchder cynhenid yn eu gweithgareddau creadigol ac erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, maent yn datblygu medrau aeddfed sy'n eu galluogi i greu darnau o waith celf cywrain a thrawiadol. Maent yn defnyddio eu dychymyg yn aeddfed wrth berfformio a dawnsio, er enghraifft mewn cynhyrchiad sy'n herio rôl bechgyn a merched wrth chwarae gyda theganau megis doliau ac arch arwyr.

Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn hapus a chwrtais ac yn trin eraill, yn oedolion a disgyblion, yn ddi-wahân â pharch. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau bod yn aelod o'r gymuned ddysgu ac yn teimlo balchder tuag at eu hysgol, eu hardal leol a'r iaith Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos ymwybyddiaeth gadarn am eu hawliau a chyfeirir at hyn yn gyson mewn sesiynau torfol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth synhwyrol o bwysigrwydd gwneud dewisiadau iach o ran bwyd a diod. Trwy weithgareddau 'Llun Lles', maent yn deall pwysigrwydd trafod eu teimladau ac, o ganlyniad, yn datblygu eu medrau i wneud dewisiadau doeth dros eu gweithredoedd. O'r oedran ifancaf, mae bron bob disgybl yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol gan fanteisio ar ystod o brofiadau gwerthfawr yn y dosbarth a'r ardaloedd allanol. Yn ystod 'Gwener Gwyllt', mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau cymdeithasol da trwy archwilio ac arbrofi ym myd natur. Maent yn meithrin ymdeimlad cynnar o barch a charedigrwydd at eu cyfoedion ac yn dangos gofal aeddfed at drychfilod bach ac anifeiliaid gwyllt. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn dda.

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel o fewn yr ysgol ac yn gwybod at bwy neu ble i droi am gymorth, pe byddai angen. Maent yn hyderus y bydd staff yn gwrandao arnynt gan roi sylw teg iddynt. Mae bron bob un yn deall sut i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel ar-lein ac yn gwybod am bwysigrwydd cadw cyfrineiriau yn gyfrinachol. Ar draws yr ysgol, mae'r disgyblion yn trafod rhinweddau a pheryglon cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol. Mae'r disgyblion hynaf sy'n perthyn i'r Criw'r Clustiau Caredig yn ymfalchïo yn eu cyfrifoldebau i ddelio â digwyddiadau ar yr iard chwarae mewn modd aeddfed a synhwyrol. Mae'r disgyblion yn cyd-chwarae'n hapus yn ystod cyfnodau egwyl ac yn ymgymryd â gemau amrywiol gyda'u ffrindiau mewn grwpiau neu mewn parau. Mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o'r gwahaniaeth rhwng camymddwyn a bwlio, yn gadarn. Maent yn ystyrllon at eraill ac yn ymwybodol bod camau gweithredu pwrpasol ar gael os oes unrhyw gamymddwyn ymysg eu cyfoedion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac yn datblygu'n ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig. Mae bron bob un o'r disgyblion ieuengaf yn chwilfrydig iawn wrth archwilio, arbrofi a datrys problemau yn yr ardaloedd dysgu, er enghraifft wrth adeiladu roced gyda blociau mawr yn yr ardal allanol. Maent yn datblygu i fod yn unigolion hyderus a mentrus o oedran cynnar iawn. Mae nifer cynyddol o ddisgyblion yn datblygu hyder a gwytnwch gan ddefnyddio dulliau megis 'tri cyn fi, a throi at ffrind cyn gofyn i athro', fel y bo'n briodol. Maent yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd, gan ddyfalbarhau am gyfnodau estynedig. Maent yn cymhwyso eu medrau yn effeithiol wrth ddewis eu dull o gofnodi ac mae eu hymglymiad at

heriau mewn dysgu yn datblygu'n dda, er enghraifft wrth iddynt ymgysylltu â gweithgareddau dysgu yn annibynnol. Erbyn brig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ystod o fedrau'n effeithiol trwy drefnu gweithgareddau a chydweithio i hyrwyddo medrau entrepreneuriaid. Enghraifft dda o hyn yw'r brwdfrydedd a amlygir gan y disgyblion wrth iddynt gynllunio a pharatoi garddwest.

Ar y cyfan, mae mwyafrif y disgyblion yn manteisio ar gyfleoedd buddiol i ymateb i'r adborth ar eu gwaith gan staff a chyfoedion. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar eu gallu i ddyfnhau eu dealltwriaeth o'u medrau.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd da o gyfleoedd buddiol i ddatblygu eu medrau arwain trwy fod yn aelodau o'r pwyllgorau ysgol, eco a hawliau plant. Maent wedi dylanwadu ar fywyd yr ysgol trwy ehangu'r arlwy o destunau darllen trwy'r arian a godwyd o'r 'darllenathon'. Mae aelodau'r cyngor eco wedi datblygu dull electronig i gofnodi'r modd maent yn teithio i'r ysgol. Mae hyn, er enghraifft, wedi codi ymwybyddiaeth y disgyblion o'u hiechyd personol a phwysigrwydd gofalu am y byd o'n cwmpas.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan staff berthynas waith gadarnhaol â'r disgyblion. Maent yn trin pob disgybl gyda charedigrwydd a pharch ac, o ganlyniad, mae'r amgylchedd dysgu'n gynhwysol a gofalgwr. Mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn hynod effeithiol.

Mae gan athrawon ddyheadau uchel ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu Cymraeg disgyblion. Maent yn arddel iaith gywir sy'n cefnogi disgyblion yn effeithiol i ddatblygu eu gallu i siarad Cymraeg yn gynyddol fedrus. Mae athrawon yn manteisio ar gyfleoedd i ymestyn geirfa a phatrymau brawddeg disgyblion mewn gweithgareddau pwrpasol, gan gynnwys wrth iddynt ddysgu yn yr ardaloedd dysgu allanol. Mae staff yn hyrwyddo manteision dysgu Cymraeg yn bwrpasol ac adeiladol.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo cydweithio effeithiol rhwng staff ar draws ysgolion y ffederasiwn ac ysgolion y clwstwr. Maent yn rhannu syniadau'n fwriadus i ddarparu cwricwlwm eang a chyfoethog i'r disgyblion. Maent yn ystyried effeithiolrwydd y ddarpariaeth a chynnydd disgyblion yn synhwyrol sydd, yn ei dro, yn gwella'r addysgu a'r dysgu. O ganlyniad, mae athrawon yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu gwerthfawr ac ysgogol ar draws y meysydd dysgu sy'n ennyn a chynnal diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sy'n adeiladu'n werthfawr ar gam datblygu y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae athrawon, mewn cydweithrediad ag ysgolion y clwstwr, wedi datblygu cwricwlwm sy'n adlewyrchu'r ardal leol a natur ddiwylliannol, ieithyddol ac amrywiol Cymru yn hynod effeithiol.

Mae arweinwyr ac athrawon yn ystyried anghenion gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn effeithiol. Mae'r cwricwlwm yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i gaffael y medrau angenrheidiol mewn llythrennedd a rhifedd mewn sesiynau dysgu. Er hyn, nid yw athrawon bob tro'n darparu digon o gyfleoedd a chefnogaeth i ddisgyblion ddeall ystyr testunau Cymraeg yn ddigon effeithiol. Mae hyn, yn ei dro, yn cyfyngu ar eu gallu i ymgysylltu'n briodol ym mhob agwedd o'u dysgu.

Mae staff yn darparu cwricwlwm sy'n gynhwysol ac yn hyrwyddo cyfleoedd teg i ddisgyblion ddatblygu'n unigolion hyderus a chyflawn. Mae'r ddarpariaeth o fewn ardaloedd dysgu'r disgyblion ieuengaf yn gyfoethog ac yn cynnig cyfleoedd ysgogol iddynt chwarae, dysgu ac ymchwilio mewn amgylchedd cyffrous. Mae athrawon yn manteisio ar chwilfrydedd a diddordebau'r disgyblion yn llwyddiannus wrth gynllunio profiadau buddiol a phwrpasol sy'n annog eu brwdfrydedd at eu dysgu. Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fwynhau ac ymgysylltu â'u dysgu mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae sesiynau wythnosol cyson yn yr ardaloedd dysgu allanol yn meithrin chwilfrydedd disgyblion ac yn datblygu eu medrau cydweithio a datrys problemau yn fwriadus. Wrth i ddisgyblion ddatblygu drwy'r ysgol, mae athrawon yn gwrando a gweithredu ar eu syniadau yn gynyddol effeithiol ac yn cynllunio gweithgareddau a phrofiadau sy'n dilyn eu diddordebau. Er enghraifft, wrth i ddisgyblion gyfrannu at yr ardaloedd dysgu a chynnwys eu syniadau wrth gynllunio gweithgareddau dysgu annibynnol.

Ar y cyfan, mae athrawon yn darparu arweiniad clir ac effeithiol yn ystod gweithgareddau dysgu. Maent yn cymell disgyblion yn llwyddiannus, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn awyddus i ddysgu. Lle mae'r addysgu'n fwyaf effeithiol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn. Yn yr enghreifftiau hyn, mae disgyblion yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol yn fuddiol wrth gymhwyso a datblygu eu dysgu yn llwyddiannus ar draws meysydd y cwricwlwm.

Mae staff yn holi disgyblion er mwyn ymestyn eu dysgu yn effeithiol. Yn yr arfer orau, mae staff yn darparu adborth defnyddiol sy'n caniatáu i ddisgyblion ddatblygu elfennau o'u medrau yn fuddiol. Er hyn, nid oes cyfleoedd cyson i ddisgyblion ymateb yn briodol i'r adborth er mwyn symud eu dysgu ymlaen. Mae athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol ac yn defnyddio'r wybodaeth yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i ddarparu cymorth a her i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn fedrus.

Mae'r ysgol yn trefnu ymweliadau gwerthfawr i ddisgyblion sy'n cysylltu â'r themâu ac yn elwa o gysylltiadau ag asiantaethau lleol, sy'n cyfoethogi'u dysgu ac yn gwella eu dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â'u lles personol. Er enghraifft, wrth i staff drefnu i ddisgyblion ymweld â Bae Caerdydd i ddysgu am hanes bobl yr ardal. Yn ogystal, mae staff yn darparu amrywiaeth o weithgareddau i ddisgyblion elwa o brofiadau allgyrsiol. Yn ystod y gweithgareddau hyn, mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau creadigol, a gwella eu medrau cymdeithasol a chorfforol, wrth gymryd rhan mewn amrywiaeth o gampau chwaraeon.

Mae staff yn rhannu gwybodaeth berthnasol am les a chynnydd disgyblion gyda rhieni mewn adroddiadau. Darperir arweiniad iddynt ar gyfer cefnogi eu plant i anelu at gyrraedd cam nesaf eu datblygiad.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned gynnes, ofalgar a hapus sy'n rhoi pwyslais clir ar ddiogelu disgyblion a hyrwyddo eu lles yn effeithiol. Mae staff yn gweithio'n agos fel tîm i gefnogi datblygiad medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn llwyddiannus. Mae yna berthynas gyfeillgar rhwng y staff a'r disgyblion ac mae'r parch a ddangosant tuag at ei gilydd yn gryfder. Mae athrawon a chynorthwyr yn adnabod

y disgyblion yn dda ac yn ymateb yn bwrpasol i'w hanghenion emosiynol a chymdeithasol.

Mae ymddygiad y disgyblion yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae staff yn gweithio'n agos gyda disgyblion i ddatblygu dulliau hunanreolaeth er mwyn eu cefnogi i reoli eu hemosiynau. Maent yn cydweithio'n dda i datblygu dealltwriaeth disgyblion o sut i gynnal perthnasoedd cadarnhaol a sut i ddatrys gwahaniaethau. Mae hyn yn gymorth pellach i staff sicrhau bod ymddygiad disgyblion yn dda.

Mae staff yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddisgyblion feithrin eu lles a datblygu eu medrau corfforol. Maent yn trefnu sesiynau dysgu buddiol yn yr ardaloedd dysgu allanol, sesiynau addysg gorfforol ac yn sicrhau defnydd o adnoddau chwarae amrywiol yn ystod cyfnodau egwyl. Mae staff yn sicrhau cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion drafod eu hemosiynau, sy'n hybu eu lles emosiynol yn llwyddiannus. Mae athrawon yn trefnu gweithgareddau pwrpasol sy'n meithrin dealltwriaeth disgyblion o sut i yfed a bwyta'n iach.

Mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn hynod effeithiol. Mae staff yn cydweithio'n agos ag asiantaethau allanol amrywiol ac yn cynnwys mewnbwn teuluoedd yn dda wrth gynllunio gweithgareddau a chymorth i ddisgyblion penodol. Mae'r cydlynedd ADY, sy'n cefnogi disgyblion ar draws y ffederasiwn, yn ystyried anghenion pob disgybl unigol cyn cynllunio rhaglenni cymorth pwrpasol ar eu cyfer. Mae'r cynorthwywyr yn ennyn diddordeb disgyblion yn ystod sesiynau cefnogi lles, llythrennedd a rhifedd yn dda. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol a pharhaus ar allu disgyblion i gael mynediad at eu dysgu.

Mae staff yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion leisio eu barn am rai agweddau o'r ddarpariaeth, gan gynnwys cyfleoedd cynyddol i drafod sut maent eisiau cyflwyno eu tasgau. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn cael cyfleoedd cyson i ddewis deunyddiau gwahanol i gyflwyno gwaith ar y thema 'Dŵr'. Er hyn, ar adegau, mae ychydig o staff yn gor-arwain y disgyblion sy'n cyfyngu ar gyfleoedd iddynt feddwl yn annibynnol am ba elfennau o'u dysgu ac o fywyd ehangach yr ysgol yr hoffent ddylanwadu arnynt.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddathlu a datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant. Mae disgyblion yn astudio nodweddion hanesyddol yr ardal drwy ymweld â Bae Caerdydd i ddysgu sut roedd y dociau yn bwysig iawn i economi Cymru yn y ganrif ddiwethaf.

Mae datblygu Cymreictod yn elfen gref o ddarpariaeth yr ysgol. Mae staff yn darparu cerddoriaeth Gymraeg i ddisgyblion ei mwynhau yn gyson, ac mae dathliadau cenedlaethol a chymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd yn hybu'r ymdeimlad o berthyn yn llwyddiannus. Caiff hyn ei atgyfnerthu drwy'r arddangosfeydd lliwgar a phwrpasol sy'n dathlu agweddau o dirwedd, diwylliant a hanes yr ardal a Chymru yn dda.

Mae staff yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion uniaethu â'r gymuned leol a'r byd ehangach. Mae staff yn cefnogi disgyblion i ddeall materion yn ymwneud â chynhwysiant yn dda ac yn hyrwyddo eu datblygiad ysbrydol a chymdeithasol yn effeithiol. Mae agweddau moesol yn treiddio trwy fywyd yr ysgol yn effeithiol. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am gydraddoldeb ac am amrywiaeth o

fewn y gymuned yn gadarn, er enghraifft wrth drafod dathliadau mis 'Pride' ac wrth drafod arwyddocâd y faner enfys.

Mae'r ysgol yn creu ac yn cynnal amgylchedd diogel ar gyfer pob disgybl ac mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant cryf o ddiogelu yn llwyddiannus, sy'n cynnwys diogelwch safle effeithiol. Mae ymweliadau gan yr heddwas lleol yn datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o sut i gadw eu hunain yn ddiogel yn y gymuned ehangach. Mae darpariaeth yr ysgol i wella presenoldeb a phrydlondeb yn effeithiol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r ddwy ysgol sy'n rhan o Ffederasiwn y Ddraig yn cael eu harwain a'u rheoli gan bennaeth sy'n angerddol dros ddarparu amrywiaeth o brofiadau dysgu cyfoethog i ddisgyblion. Rhoddir blaenoriaeth gadarn ar ehangu gorwelion disgyblion a'u hannog i ymfalchïo yn eu Cymreictod, eu diwylliant a'u dwyieithrwydd. Mae'n cael ei gefnogi'n hynod effeithiol gan aelodau'r uwch dim arwain sy'n cyfrannu'n werthfawr at osod cyfeiriad bwriadus ar draws y ffederasiwn. Gyda'i gilydd, mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer y ffederasiwn sy'n seiliedig ar bwysigrwydd cydweithio fel un gymuned agos i greu amgylchedd dysgu diogel, cefnogol a chytûn i ddisgyblion.

Mae gan aelodau'r uwch dîm ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau arwain. Maent yn cydweithio'n effeithiol fel tîm ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain, y staff a'r disgyblion. Maent yn arddangos gwerthoedd proffesiynol sy'n cyfrannu'n gadarn at sicrhau bod yr ysgol yn hafan ddiogel a chartrefol i bawb. Maent yn meithrin diwylliant diogelu cadarn.

Mae gan arweinwyr adnabyddiaeth drwyadl o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Maent yn gwneud defnydd pwrpasol o'r wybodaeth gynhwysfawr sy'n deillio o ystod eang o ffynonellau sy'n cynnwys teithiau dysgu, craffu ar lyfrau ac amryfal holiaduron. Mae ganddynt raglen monitro ac olrhain cynnydd disgyblion sy'n eu galluogi i ddatblygu adnabyddiaeth gadarn o'r ddarpariaeth. Maent yn defnyddio'r wybodaeth yn fwriadus i adnabod agweddau ar gyfer gwella.

Mae arweinwyr yn rheoli perfformiad y staff yn barhaus ac yn eu hannog i wella unrhyw feysydd penodol y cytunir arnynt. Mae gan y ffederasiwn raglen briodol o hyfforddiant sydd wedi ei seilio ar flaenoriaethau cenedlaethol, lleol, ysgolion ac anghenion proffesiynol unigolion. Enghraifft dda o effaith hyn yw'r arweiniad mae athrawon wedi'i gael i sefydlu darpariaeth bwrpasol ac ysgogol yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn sy'n cael ei ymledu'n fwriadus ar draws yr ysgol. Yn ddiweddar, mae staff wedi mynychu hyfforddiant i wella medrau darllen disgyblion. Er hyn, nid oes gan ddisgyblion ddealltwriaeth ddigon cadarn o ystyr testunau Cymraeg i'w cefnogi i ddatblygu eu medrau ar draws y meysydd dysgu.

Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i staff gydweithio fel triawdau dysgu ar draws y ffederasiwn. Mae'r triawdau'n manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i arsylwi ar arferion dysgu'r ddwy ysgol, i fyfyrion ar eu dulliau addysgu ac i gynllunio gweithgareddau dysgu gyda'i gilydd. Mae hyn yn cryfhau'r berthynas waith gynhyrchiol sy'n datblygu rhwng athrawon y ffederasiwn, ac yn arwain at gysondeb yn eu dulliau addysgu.

Mae'r berthynas waith sy'n bodoli rhwng y ffederasiwn a'r ysgolion lleol yn gryfder. Mae arweinwyr ysgolion clwstwr Bro Eder yn cyfarfod yn rheolaidd i gydweithio ar elfennau allweddol o'r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae staff yn datblygu cyd-ddealltwriaeth gadarn ac yn cysoni agweddau o addysgeg sy'n dylanwadu'n dda ar ddatblygiad disgyblion. Maent wedi elwa o arbenigedd cynrychiolwyr meysydd dysgu wrth iddynt gydweithio'n agos i gynllunio cwricwlwm cytûn. Mae'r cwricwlwm yn rhoi arweiniad cadarn ar gyfer datblygu'r medrau a'r wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno, ac yn cynnig hyblygrwydd priodol i athrawon bersonoli ac addasu'r cynnwys, fel y bo'n briodol. O ganlyniad, mae'r ffederasiwn yn darparu ystod eang o brofiadau sy'n ysgogi disgyblion i gymryd perchnogaeth a mwynhau eu dysgu.

Mae llywodraethwyr yn sicrhau eu bod yn darparu cydbwysedd synhwyrol o gymorth a her i arweinwyr. Maent yn cynnal trafodaethau â staff ac yn ymweld â'r ysgolion yn rheolaidd i werthuso'r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mae hyn yn eu galluogi i gyfrannu'n wybodus at drafodaethau penodol i bennu'r blaenoriaethau strategol ac i gyflawni eu rolau'n effeithiol. Mae aelodau'r corff yn rheoli cyllid yn ddarbodus. Mae hyn yn cynnwys y grant datblygu disgyblion, sy'n cael ei ddefnyddio'n briodol i gyflogi staff i hybu'r dysgu a lleihau effaith tloidi ar gyrhaeddiad addysgol disgyblion. Mae'r llywodraethwyr yn sicrhau bod gan y ffederasiwn drefniadau pwrpasol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae gan arweinwyr berthynas agos â rhieni ac maent yn sicrhau bod ganddynt drefniadau cyfathrebu effeithiol â nhw i'w galluogi i godi unrhyw faterion a all effeithio ar ddysgu a lles eu plant. Mae rhieni yn hyderus bod staff yr ysgol yn gwrando ar eu pryderon ac yn werthfawrogol o'r cyflymder mae staff yn ymateb iddynt.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn
(www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.llyw.cymru: Estyn

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/08/2024